

LIC - Rhif 20-59

DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch Cyfarwyddydau'r Datganiad o Hawlogaethau Ariannol (Darparu Gwasanaethau Ychwanegol yn ystod Cyfnod Llacio'r Pandemig COVID-19) 2020

Gwnaed 19 Tachwedd 2020

Yn dod i rym 20 Tachwedd 2020

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45, 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1), ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 45(4) o'r Ddeddf honno â'r cyrff yr ymddangosai iddynt hwy eu bod yn cynrychioli'r personau y mae'r Cyfarwyddydau hyn yn ymwneud â'u tâl, yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

Enwi, cymhwyso, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch Cyfarwyddydau'r Datganiad o Hawlogaethau Ariannol (Darparu Gwasanaethau Ychwanegol yn ystod Cyfnod Llacio'r Pandemig COVID-19) 2020.

(2) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol. Maent yn ymwneud â'r taliadau sydd i'w gwneud gan Fyrddau Iechyd Lleol i gontractwr GMC o dan gontract GMC.

(3) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 20 Tachwedd 2020 a deuant i ben ar 1 Hydref 2021.

(4) Mae'r Cyfarwyddydau hyn yn effeithiol o 1 Hydref 2020 ymlaen.

(5) Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr “blwyddyn ariannol” (“*financial year*”) yw blwyddyn sy'n gorffen â 31 Mawrth;

ystyr “Bwrdd Iechyd Lleol” (“*Local Health Board*”) yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd yn unol ag adran 11(2) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol” (“*relevant Local Health Board*”) yw'r Bwrdd Iechyd Lleol y mae mangre practis y contractwr wedi ei lleoli yn ei ardal;

ystyr “contract GMC” (“*GMS contract*”) yw contract gwasanaethau meddygol cyffredinol a wnaed yn unol ag adran 42 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “contractwr GMC” (“*GMS contractor*”) yw contractwr sy'n darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol o dan gontract GMS;

ystyr “cyfnod adfer” (“*recovery phase*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau â 1 Gorffennaf 2020 ac sy'n gorffen â 30 Medi 2020;

ystyr “cyfnod llacio” (“*relaxation phase*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau â 1 Hydref 2020 ac sy’n gorffen â 30 Medi 2021;

ystyr “cyfnod sylfaen” (“*baseline period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau â 1 Ebrill 2019 ac sy’n gorffen â 31 Mawrth 2020;

ystyr “chwarter” (“*quarter*”) yw pob cyfnod o dri mis sy’n dod i ben ar 31 Mawrth, 30 Mehefin, 30 Medi a 31 Rhagfyr;

ystyr “Datganiad o Hawlogaethau Ariannol” (“*Statement of Financial Entitlements*”) yw unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 45 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 mewn perthynas â thaliadau sydd i’w gwneud gan Fwrdd Iechyd Lleol i gontractwr GMC;

ystyr “dilysu ar ôl talu” (“*post payment verification*”) yw’r broses yr ymgwymerir â hi gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru(1) i roi sicrwydd i Fyrddau Iechyd Lleol bod yr hawliadau am daliadau a wneir gan gontractwyr GMC yn gywir ac yn cyd-fynd â’r Cyfarwyddydau i’r Byrddau Iechyd Lleol ynghylch Cyfarwyddydau’r Datganiad o Hawlogaethau Ariannol 2013(2), gweithdrefnau’r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol a manylebau gwasanaethau ychwanegol unigol;

ystyr “gwasanaeth ychwanegol” (“*enhanced service*”) yw gwasanaeth a restrir yng ngholofn 1 o Dabl 1, neu golofn 1 o Dabl 2, yn yr Atodlen i’r Cyfarwyddiadau hyn.

Gwasanaethau Ychwanegol yn ystod cyfnod llacio’r pandemig COVID-19

2. Yn ystod y cyfnod llacio, rhaid i gontractwyr GMC ddarparu gwasanaethau ychwanegol yn unol â cholofn 2 o’r Tabl yn yr Atodlen i’r Cyfarwyddydau hyn.

3. Rhaid i gontractwyr GMC sicrhau bod clinigwyr sy’n darparu unrhyw wasanaeth ychwanegol yn ystod y cyfnod llacio yn defnyddio barn glinigol wrth ddarparu gofal i gleifion. Wrth wneud hynny, caiff clinigwyr ystyried ymgynghori dros y ffôn a fideo, fel y bo’n briodol, yn ogystal â gohirio gweithgarwch rheolaidd megis adolygiadau blynyddol, ar yr amod eu bod wedi eu bodloni bod y claf yn sefydlog ac yn cael ei reoli’n dda. Dylai clinigwyr roi blaenoriaeth i gleifion nad dynt wedi eu rheoli’n dda a sicrhau eu bod yn cael y gofal y mae arnynt ei angen.

Taliadau am Wasanaethau Ychwanegol yn ystod cyfnod llacio’r pandemig COVID-19

4.—(1) Rhaid i gontractwr GMC sy’n darparu gwasanaeth ychwanegol yn ystod y cyfnod llacio gyflwyno cais am daliad i’r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol yn unol â pharagraff (2) neu (3) er mwyn cael taliad am ddarparu’r gwasanaeth ychwanegol hwnnw.

(2) Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol dalu contractwr GMC sy’n darparu gwasanaeth ychwanegol yn ystod y cyfnod llacio yn unol â’r canlynol—

- (a) colofn 2 o Dabl 1 yn yr Atodlen i’r Cyfarwyddydau hyn, swm pa un bynnag yw’r mwyaf o’r canlynol—
 - (i) yr hawliad a gyflwynwyd ar gyfer y gwasanaeth ychwanegol hwnnw am weithgarwch a gwblhawyd gan y contractwr GMC yn ystod chwarter o’r cyfnod llacio, yn unol â’r Cyfarwyddydau perthnasol ar gyfer y gwasanaeth ychwanegol hwnnw, neu
 - (ii) y taliad a gafodd y contractwr GMC am weithgarwch a gwblhawyd yn ystod y chwarter cyfatebol yn y cyfnod sylfaen yn unol â’r Cyfarwyddydau perthnasol ar gyfer y gwasanaeth ychwanegol hwnnw; neu
- (b) colofn 2 o Dabl 2 yn yr Atodlen i’r Cyfarwyddydau hyn, swm yr hawliad a gyflwynwyd ar gyfer y gwasanaeth ychwanegol hwnnw am weithgarwch a gwblhawyd gan y

(1) Sefydlwyd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gan Reoliadau Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012, O.S. 2012/1261 (Cy. 156).

(2) 2013 Rhif 8.

contractwr GMC yn ystod chwarter o'r cyfnod llacio, yn unol â'r Cyfarwyddydau perthnasol ar gyfer y gwasanaeth ychwanegol hwnnw.

(3) Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol dalu contractwr GMC sy'n darparu gwasanaeth ychwanegol am ran o'r cyfnod llacio yn unol â'r canlynol—

- (a) colofn 2 o Dabl 1 yn yr Atodlen i'r Cyfarwyddydau hyn ond ei fod wedyn yn tynnu ei ddarpariaeth o'r gwasanaeth ychwanegol hwnnw yn ôl, swm pa un bynnag yw'r mwyaf o'r canlynol—
 - (i) yr hawliad a gyflwynwyd am y gwasanaeth ychwanegol hwnnw gan y contractwr GMC am y cyfnod o'r cyfnod llacio y bu'r contractwr yn darparu'r gwasanaeth ychwanegol, yn unol â'r Cyfarwyddydau perthnasol ar gyfer y gwasanaeth ychwanegol hwnnw, neu
 - (ii) y taliad a gafodd y contractwr GMC am weithgarwch a gwblhawyd ar gyfer y gwasanaeth ychwanegol hwnnw am y cyfnod a grybwyllir yn is-baragraff (a) yn y cyfnod sylfaen; neu
- (b) colofn 2 o Dabl 2 yn yr Atodlen i'r Cyfarwyddydau hyn ond ei fod wedyn yn tynnu ei ddarpariaeth o'r gwasanaeth ychwanegol hwnnw yn ôl, swm yr hawliad a gyflwynwyd am y gwasanaeth ychwanegol hwnnw gan y contractwr GMC am y cyfnod o'r cyfnod llacio y bu'r contractwr yn darparu'r gwasanaeth ychwanegol, yn unol â'r Cyfarwyddydau perthnasol ar gyfer y gwasanaeth ychwanegol hwnnw.

(4) Nid oes gan contractwr GMC a fu'n darparu gwasanaeth ychwanegol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 hawlogaeth i gael unrhyw daliad am y gwasanaeth ychwanegol hwnnw yn ystod y cyfnod ymlacio—

- (a) os nad yw'r contractwr GMC wedi ei gomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth ychwanegol hwnnw ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 neu flwyddyn ariannol 2021/22,
- (b) os yw'r contractwr GMC wedi ei gomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth ychwanegol hwnnw, ond ei fod wedyn yn rhoi hysbysiad i'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol o'i benderfyniad i dynnu'r ddarpariaeth yn ôl, ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 neu flwyddyn ariannol 2021/22, neu
- (c) os nad yw'r contractwr GMC yn cyflwyno cais am daliad i'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol mewn perthynas â'r cyfnod o'r cyfnod llacio y bu'r contractwr yn darparu'r gwasanaeth ychwanegol.

(5) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol wneud taliadau bob mis neu bob chwarter, fel ôl-daliad, a bydd y taliadau hyn yn daladwy ar y dyddiad cyntaf ar ôl awdurdodi'r taliad y bydd taliad misol Swm Craidd y contractwr GMC a gymerwyd ymlaen yn dod yn ddyledus yn unol â'r Datganiad o Hawlogaethau Ariannol.

Gordalu a symiau a gadwyd yn ôl

5. Ar ddiwedd y cyfnod llacio, bydd ymarfer cysoni'n cael ei gynnal ac os oes Bwrdd Iechyd Lleol wedi gwneud taliad i contractwr GMC o dan ei contract GMC am ddarparu gwasanaethau ychwanegol yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn ac—

- (a) nad oedd gan y contractwr GMC hawlogaeth i gael y cyfan neu ran ohono, boed oherwydd—
 - (i) na chyrraeddodd y contractwr GMC y trothwy gofynnol a osodwyd i gael y taliad am y gwasanaeth ychwanegol perthnasol, neu
 - (ii) bod y taliad wedi ei gyfrifo'n anghywir (gan gynnwys pan fo taliad ar gyfrif yn goramcangyfrif y swm sydd i ddod yn ddyledus);
- (b) bod gan y Bwrdd Iechyd Lleol hawlogaeth i gadw'r cyfan neu ran o'r taliad yn ôl am nad yw'r contractwr GMC wedi cyrraedd y trothwy a bennwyd ar gyfer y gwasanaeth ychwanegol perthnasol sy'n gysylltiedig â'r taliad, ond ei fod yn methu gwneud hynny am fod yr arian eisoes wedi ei dalu; neu
- (c) bod gan y Bwrdd Iechyd Lleol hawlogaeth i gael ad-daliad o'r cyfan neu ran o'r arian a dalwyd,

caiff y Bwrdd Iechyd Lleol adennill yr arian a dalwyd drwy ddiynnu swm cyfatebol o unrhyw daliad sy'n daladwy yn unol â Chyfarwyddydau Gweinidogion Cymru sy'n gymwys i'r gwasanaeth ychwanegol perthnasol (mewn rhandaliadau, pan fo hynny'n briodol), a phan na ellir gwneud didyniad o'r fath, un o amodau'r taliadau a wneir yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn yw bod rhaid i'r contractwr dalu'r swm cyfatebol hwnnw i'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Tandalu a thaliadau hwyr

6. Os na thalwyd swm llawn taliad sy'n daladwy yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn cyn y dyddiad y mae'r taliad yn dod yn ddyledus o dan Gyfarwyddyd 4(5), yna—

- (a) oni bai bod hyn wedi digwydd gyda chydsyniad y contractwr GMC; neu
- (b) oni bai bod anghydfod ynghylch swm y taliad neu unrhyw ran ohono, neu ynghylch yr hawlogaeth i'w gael,

unwaith y bydd yn ddyledus, rhaid ei dalu'n brydlon (gweler rheoliad 22 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004(1)).

7. Os nad oes anghydfod ynghylch hawlogaeth y contractwr GMC i gael y taliad ond bod anghydfod ynghylch swm y taliad, yna unwaith y bydd y taliad yn dod yn ddyledus o dan Gyfarwyddyd 4(5), hyd nes y caiff yr anghydfod ei ddatrys, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol—

- (a) talu i'r contractwr GMC, yn brydlon, swm sy'n cynrychioli'r swm y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn derbyn bod gan y contractwr GMC o leiaf hawlogaeth i'w gael, a
- (b) wedi hynny, talu unrhyw ddiffyg yn brydlon, unwaith y caiff yr anghydfod ei ddatrys yn derfynol.

8. Serch hynny, os oes contractwr GMC—

- (a) heb hawlio taliad y byddai ganddo hawlogaeth i'w gael yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn pe bai'n hawlio'r taliad; neu
- (b) wedi hawlio taliad y mae ganddo hawlogaeth i'w gael yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn ond na all Bwrdd Iechyd Lleol gyfrifo'r taliad tan ar ôl i'r taliad ddod yn ddyledus am nad oes ganddo'r wybodaeth y mae arno ei hangen i gyfrifo'r taliad hwnnw (a bod pob ymdrech resymol wedi ei gwneud i sicrhau'r wybodaeth),

mae'r taliad hwnnw i ddod yn ddyledus (yn hytrach) ar ddiwrnod gwaith cyntaf y mis ar ôl y mis pan fydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn sicrhau'r wybodaeth y mae arno ei hangen i gyfrifo'r taliad.

Taliadau ar gyfrif

9. Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r contractwr GMC yn cytuno (ond caniateir i gytundeb y Bwrdd Iechyd Lleol gael ei dynnu'n ôl pan fo'n rhesymol gwneud hynny ac os yw wedi rhoi hysbysiad rhesymol i'r contractwr GMC ynglŷn â hynny), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu i gontractwr GMC ar gyfrif unrhyw swm sydd—

- (a) yn swm taliad, neu'n amcangyfrif rhesymol o swm taliad, sydd i fod i ddod yn ddyledus yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn; neu
- (b) yn ganran y cytunir arni o swm, neu'n amcangyfrif rhesymol o swm, sydd i fod i ddod yn ddyledus yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn, ac os yw'r taliad hwnnw'n arwain at ordaliad mewn perthynas â'r taliad, mae Cyfarwyddyd 5 yn gymwys

Cyfyngiad amser ar gyfer hawlio taliadau

10. Rhaid i gontractwyr GMC wneud cais am daliad o dan y Cyfarwyddydau hyn erbyn 31 Hydref 2021.

(1) O.S. 2004/478.

Cyflwyno adroddiadau ar wasanaethau ychwanegol yn ystod y cyfnod llacio

11. Mae unrhyw ofyniad bod rhaid i gcontractwr GMC gyflwyno adroddiad ar wasanaeth ychwanegol a geir yng Nghyfarwyddydau Gweinidogion Cymru yn gymwys i ddarparu gwasanaethau ychwanegol yn ystod y cyfnod llacio.

Dilysu ar ôl talu

12. Mae dilysu ar ôl talu yn gymwys i ddarparu gwasanaethau ychwanegol yn ystod y cyfnod llacio.

Datrys anghydfodau

13. Ymdrinnir ag unrhyw anghydfodau sy'n codi o ganlyniad i ddarparu gwasanaeth ychwanegol yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn yn unol â Rhan 7 o Atodlen 6 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004.

Diwygio Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cartrefi Gofal COVID-19) (Gwasanaethau Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2020

14. Yng Nghyfarwyddyd 1(2) o Gyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cartrefi Gofal COVID-19) (Gwasanaethau Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2020(1) hepgorer "a deuant i ben ar 31 Mawrth 2021" .

Arbed Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch Cyfarwyddydau'r Datganiad o Hawlogaethau Ariannol (Darparu Gwasanaethau Ychwanegol yn ystod Cyfnod Adfer y Pandemig COVID-19) 2020

15. Mae Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch Cyfarwyddydau'r Datganiad o Hawlogaethau Ariannol (Darparu Gwasanaethau Ychwanegol yn ystod Cyfnod Adfer y Pandemig COVID-19) 2020 yn dal yn gymwys i hawliadau am daliad a wneid gan gcontractwr GMC mewn perthynas â'r cyfnod sy'n dechrau â 1 Gorffennaf 2020 ac sy'n gorffen â 30 Medi 2020.



Llofnodwyd gan Alex Slade, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: 19 Tachwedd 2020

ATODLEN

Tabl 1

<i>Gwasanaeth Ychwanegol o dan gyfarwyddyd</i>	<i>Camau gan y contractwr GMC yn ystod y cyfnod llacio</i>
Anableddau Dysgu	<p>Darpariaeth yn unol â Chyfarwyddyd 10 o Gyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Gwasanaethau Ychwanegol o dan gyfarwyddyd) 2007, yn ddarostyngedig i'r canlynol—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) defnyddio ymgynghoriad ffôn neu fideo fel y sefyllfa ddiodyn, gan ddefnyddio ymgynghoriad wyneb yn wyneb pan fo'n angenrheidiol yn unig, (b) cydnabod y gall rhan o'r adolygiad gael ei chwblhau'n electronig, ac (c) cyflawni cyfanswm o 75% o leiaf o'r gweithgarwch a hawliwyd ar gyfer y cyfnod sylfaen yn ystod y cyfnod llacio.
Hunaniaeth o ran Rhywedd	<p>Darpariaeth yn unol â Chyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Triniaeth Hormonau ar gyfer Cleifion Trawsryweddol sy'n Oedolion) (Gwasanaethau Ychwanegol o dan gyfarwyddyd) (Cymru) 2019 yn ddarostyngedig i'r canlynol—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) cysylltu â'r claf ar ddiwrnod yr apwyntiad i asesu a yw'n symptomatig, a (b) cyflawni cyfanswm o 75% o leiaf o'r gweithgarwch a hawliwyd ar gyfer y cyfnod sylfaen yn ystod y cyfnod llacio.
Gwasanaethau i Gleifion Treisgar	<p>Darpariaeth yn unol â Chyfarwyddyd 7 o Gyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Gwasanaethau Ychwanegol o dan gyfarwyddyd) 2007 yn ddarostyngedig i asesiad brysbennu gan GIG 111 i'r claf ar ddiwrnod yr apwyntiad.</p>
Ffi Mân Lawdriniaeth	<p>Darpariaeth yn unol â Chyfarwyddyd 8 o Gyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Gwasanaethau Ychwanegol o dan gyfarwyddyd) 2007, yn ddarostyngedig i'r canlynol—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) cysylltu â'r claf ar ddiwrnod yr apwyntiad i asesu a yw'n symptomatig, a (b) lleihau gymaint ag y bo modd ar nifer y clinigwyr sy'n gweld y claf, ac

	<p>(c) cyflawni cyfanswm o 50% o leiaf o'r gweithgarwch a hawliwyd ar gyfer y cyfnod sylfaen yn ystod y cyfnod llacio ar gyfer—</p> <p>(i) trychiadau, lle mae'r ymyriadau wedi eu cyfiawnhau'n glir o ran polisiau ar ymyriadau nad ymgwymerir â hwy fel rheol a pham nad awgrymwyd tynnu'r 3C dros y 12 mis, a</p> <p>(ii) pigladau.</p>
Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid (o 1 Ebrill 2008)	<p>Darpariaeth yn unol â Chyfarwyddyd 5 o Gyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Gwasanaethau Ychwanegol o dan gyfarwyddyd) (Cymru) (Rhif 2) 2009, yn ddarostyngedig i'r canlynol—</p> <p>(a) defnyddio ymgynghoriad ffôn neu fideo fel y sefyllfa ddiodyn, gan ddefnyddio ymgynghoriad wyneb yn wyneb pan fo'n angenrheidiol yn unig,</p> <p>(b) cydnabod y gall rhan o'r adolygiad gael ei chwblhau'n electronig, ac</p> <p>(c) cyflawni cyfanswm o 75% o leiaf o'r gweithgarwch a hawliwyd ar gyfer y cyfnod sylfaen yn ystod y cyfnod llacio.</p>
Gofal Diabetes	<p>Darpariaeth yn unol â Chyfarwyddyd 8 o Gyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Gwasanaethau Ychwanegol o dan gyfarwyddyd) (Cymru) (Rhif 2) 2009, yn ddarostyngedig i'r canlynol—</p> <p>(a) rhoi blaenoriaeth i'r cleifion hynny y gwyddys eu bod yn wael o ran cydymffurfio â'u hanhwylder neu reoli eu hanhwylder,</p> <p>(b) cysylltu â'r claf ar ddiwrnod yr apwyntiad i asesu a yw'n symptomatig,</p> <p>(c) cydnabod y gall rhan o'r adolygiad gael ei chwblhau'n electronig, a</p> <p>(d) cyflawni cyfanswm o 75% o leiaf o'r gweithgarwch a hawliwyd ar gyfer y cyfnod sylfaen yn ystod y cyfnod llacio.</p>
Cynllun Gofal Diabetes Mellitus Math 2 i Oedolion	<p>Darpariaeth yn unol â Chyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Gofal Diabetes Mellitus Math 2 i Oedolion) (Gwasanaethau Ychwanegol o dan gyfarwyddyd) (Cymru) 2017, yn ddarostyngedig i'r canlynol—</p> <p>(a) rhoi blaenoriaeth i'r cleifion hynny y gwyddys eu bod yn wael o ran cydymffurfio â'u hanhwylder neu reoli</p>

	<p>eu hanhwylder,</p> <p>(b) cysylltu â'r claf ar ddiwrnod yr apwyntiad i asesu a yw'n symptomatig,</p> <p>(c) cydnabod y gall rhan o'r adolygiad gael ei chwblhau'n electronig, a</p> <p>(d) cyflawni cyfanswm o 75% o leiaf o'r gweithgarwch a hawliwyd ar gyfer y cyfnod sylfaen yn ystod y cyfnod llacio.</p>
Cartrefi Gofal	Darpariaeth yn unol â Chyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cartrefi Gofal COVID-19) (Gwasanaethau Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2020.
Oriau Agor Estynedig yn y Feddygfa	Darpariaeth yn unol â Chyfarwyddyd 4 o Gyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Gwasanaethau Ychwanegol o dan gyfarwyddyd) (Cymru) (Rhif 2) 2009, yn ddarostyngedig i ddefnyddio ymgynghoriad ffôn neu fideo fel y sefyllfa ddiodyn, gan ddefnyddio ymgynghoriad wyneb yn wyneb pan fo'n angenrheidiol yn unig.
Pobl Ddigartref	<p>Darpariaeth yn unol â Chyfarwyddyd 9 o Gyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Gwasanaethau Ychwanegol o dan gyfarwyddyd) (Cymru) (Rhif 2) 2009, yn ddarostyngedig i'r canlynol—</p> <p>(a) defnyddio ymgynghoriad ffôn neu fideo fel y sefyllfa ddiodyn, gan ddefnyddio ymgynghoriad wyneb yn wyneb pan fo'n angenrheidiol yn unig,</p> <p>(b) cydnabod y gall rhan o'r adolygiad gael ei chwblhau'n electronig, ac</p> <p>(c) cyflawni cyfanswm o 75% o leiaf o'r gweithgarwch a hawliwyd ar gyfer y cyfnod sylfaen yn ystod y cyfnod llacio..</p>
Gwrthgeulo drwy'r Geg â Warffarin	<p>Darpariaeth yn unol â Chyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Gwrthgeulo drwy'r Geg â Warffarin) (Gwasanaethau Ychwanegol o dan gyfarwyddyd) (Cymru) 2017 yn ddarostyngedig i'r canlynol—</p> <p>(a) cysylltu â'r claf ar ddiwrnod yr apwyntiad i asesu a yw'n symptomatig,</p> <p>(b) trefnu apwyntiadau gyda mwy o fylchau rhyngddynt i greu lle yn yr ystafell aros, ac</p> <p>(c) ystyried a ddylid newid i wrthgeulyddion geneuol newydd (NOACs) neu ddefnyddio dull hunanfonitro.</p>

Tabl 2

<i>Gwasanaeth Ychwanegol o dan gyfarwyddyd</i>	<i>Camau gan y contractwr GMC yn ystod y cyfnod llacio</i>
Cynllun Imiwneiddio Plant	Darpariaeth yn unol â Chyfarwyddyd 5 o Gyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Gwasanaethau Ychwanegol o dan gyfarwyddyd) 2007 yn ddarostyngedig i'r canlynol— <ul style="list-style-type: none">(a) cysylltu â'r claf ar ddiwrnod yr apwyntiad i asesu a yw'n symptomatig,(b) trefnu apwyntiadau gyda mwy o fylchau rhyngddynt i greu lle yn yr ystafell aros,(c) darparu sesiwn yn unswydd i blant, a(d) lleihau gymaint ag y bo modd ar nifer y clinigwyr sy'n gweld y claf.
Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw	Darpariaeth yn unol â Chyfarwyddyd 6 o Gyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Gwasanaethau Ychwanegol o dan gyfarwyddyd) 2007 yn ddarostyngedig i'r canlynol— <ul style="list-style-type: none">(e) cysylltu â'r claf ar ddiwrnod yr apwyntiad i asesu a yw'n symptomatig,(f) trefnu apwyntiadau gyda mwy o fylchau rhyngddynt i greu lle yn yr ystafell aros, a(g) lleihau gymaint ag y bo modd ar nifer y clinigwyr sy'n gweld y claf.
Cynllun Imiwneiddio Niwmococol	Darpariaeth yn unol â Chyfarwyddyd 6 o Gyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Gwasanaethau Ychwanegol o dan gyfarwyddyd) 2007 yn ddarostyngedig i'r canlynol— <ul style="list-style-type: none">(h) rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio brechlyn niwmococol polysacarid (PPV23) ar sail asesiadau unigol ac yn unol ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru,(i) cysylltu â'r claf ar ddiwrnod yr apwyntiad i asesu a yw'n symptomatig,(j) trefnu apwyntiadau gyda mwy o fylchau rhyngddynt i greu lle yn yr ystafell aros, a(k) lleihau gymaint ag y bo modd ar nifer y clinigwyr sy'n gweld y claf.
Imwneiddio rhag Pertwsis i Fenywod Beichiog a Menywod ar ôl Geni	Darpariaeth yn unol â Chyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Imwneiddio rhag Pertwsis i Fenywod Beichiog a Menywod ar ôl Geni) (Gwasanaethau Ychwanegol o dan gyfarwyddyd) (Cymru) 2016 yn ddarostyngedig i gysylltu â'r claf ar

ddiwrnod yr apwyntiad i asesu a yw'n
symptomatig.
